Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2008
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2008
Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 52/1990

Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr

Cynulleidfa

Awdurdodau addysg lleol, ysgolion, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Trosolwg

Dogfen drosfwaol yw hon, na fwriedir iddi fod yn un ragnodol. Dylid ei hystyried ar y cyd â Chylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr – anghenion a ddiffinnir yn fras yn ôl materion, gwerthoedd ac arferion diwylliannol, a chan y duedd i'r addysg fod yn fylchog yn hytrach nag yn gyson.

Mae'r canllawiau wedi'u cynllunio mewn modd a fydd yn eu gwneud yn ddefnyddiol i awdurdodau addysg lleol ac i ysgolion os digwydd iddynt ddod ar draws sefyllfa anghyfarwydd mewn perthynas â phlant Sipsiwn-Teithwyr.

Camau i'w cymryd

Dim - er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Theresa Davies
Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
3ydd Llawr
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ANIDMailbox@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod.

Dogfennau cysylltiedig

Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith (2006)
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr Rhif 47/2006)

G/311/07-08
ISBN 978 0 7504 4381 4
Mawrth
CMK-22-07-240
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

Cynnwys

Geirfa

Cyflwyniad

Adran 1 - Cefndir a chyd-destun

1. Fframwaith Cyfreithiol a diffiniadau
2. Diwylliant
3. Data a'r CYBLD
4. Polisi ar gyfer AALlau ac ysgolion

Adran 2 - Arfer Da ar gyfer Cynhwysiant

5. Cwricwlwm
   - Datblygiadau Cenedlaethol
   - Materion Cwricwlwm Sipsiwn a Theithwyr
   - Blynyddoedd Cyn-ysgol a Chynnar
   - Addysg Gynradd a Throsglwyddo
   - Addysg Uwchradd - Cyfnod allweddol 3
   - Cyfnod allweddol 4 a Thu Hwnt - Llwybrau Dysgu 14-19
6. Gwaith cartref
7. Mynediad a Phresenoldeb
8. Dysgu bylchog - hybu parhad
9. Addysg yn y Cartref

Adran 3 - Adnoddau i gefnogi addysg Sipsiwn a Theithwyr

10. Gwasanaethau Cymorth yr AALl
11. Gwasanaethau Ieuenctid
12. Hyfforddiant staff
13. Anghenion Dysgu Ychwanegol
14. Gweithio gyda theuluoedd
15. Gweithio aml-asiantaethol
16. Gweithio ar draws Cymru gyfan

Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn - Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Adran 4 - Dogfennau Cyfeirio

Atodiad 1 - Mynegai i'r Dogfennau

Atodiad 2 - Lleoliad safleoedd yr Awdurdod Lleol a TES

Atodiad 3 - Cysylltiadau defnyddiol

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Geirfa

CYBLD - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl

SCYA - Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

AALI - Awdurdod Addysg Lleol

CYPP - Cynllun Plant a Phobl Ifanc

SEP - Cynllun Addysg Sengl

DCSF - Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

APADGOS - Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

ANID - Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant

ETG - Grant Addysg i Deithwyr

CAU - Cynllun Addysg Unigol

TES - Gwasanaeth Addysg i Deithwyr

AAA - Anghenion Addysgol Arbennig

ALN - Anghenion Dysgu Ychwanegol

ADEW - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Cyflwyniad

Mae'r cylchlythyr hwn, ar gyfer Awdurdodau Addysg Leol a phob ysgol, yn diwygio'r canllaw a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghylchlythyr 52/90 y Swyddfa Gymreig: Meeting the Educational Needs of Travellers and Displaced Persons. Er bod yr egwyddorion y tu ôl i'r canllaw hwnnw'n dal yn berthnasol, erbyn hyn mae angen adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau addysg a gafwyd yn y cyfamser, mewn canllaw diwygiedig. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar Sipsiwn a Theithwyr, gan fod y trefniadau ar gyfer pobl wedi'u dadleoli bellach yn cael eu cynnwys gyda'r gwasanaethau addysg a ddarperir ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid.

Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, yn darparu canllaw trosfwaol. Mae'r papur hwn yn darparu atodiad arfer da i'r cylchlythyr a dylid eu hystyried ar y cyd. Mae'r canllaw hwn yn adlewyrchu anghenion arbennig dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu diffinio'n fras yn ôl materion diwylliannol, gwerthoedd ac arfer, ac yn ôl y duedd lle mae dysgu'n fylchog yn hytrach na bod yn barhaus.

Mae proffil poblogaeth y Sipsiwn a'r Teithwyr yng Nghymru wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod llai o deithio i gael gwaith gan fod y ffynonellau traddodiadol o waith tymhorol wedi lleihau ac, o'r herwydd, mae cyfran uwch o Sipsiwn a Theithwyr yn datblygu i fod yn fwy sefydlog ar safleoedd lleol neu mewn tai cymdeithasol. Hefyd, mae cynnydd mewn gweithwyr sy'n mudo o wledydd sydd wedi'u derbyn i'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cynnwys rhai Sipsiwn aTheithwyr, ac adroddir am gynnydd mewn Teithwyr-Sipsiwn Roma o Ewrop sy'n cyrraedd y DU, gyda rhai yn dod i Gymru.

Mae'r canllaw diwygiedig hwn wedi'i seilio ar argymhellion tri adroddiad arwyddocaol. Y cyntaf oedd canlyniad adolygiad cynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru i Sipsiwn a Theithwyr gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2003 a oedd yn gwneud sawl argymhelliad yn ymwneud ag addysg gan gynnwys diwygio Cylchlythyr 52/90. Yn dilyn hyn, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn - Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

(SCYA) i gynnal 'Ymchwil penodol i Addysg Plant Teithwyr-Sipsiwn yng Nghymru'. Cyhoeddwyd hwn ym mis Chwefror 2007. Hefyd, cynhaliodd Estyn 'Arolwg o'r Ddarpariaeth a wneir gan Ysgolion ac Awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr' yn 2005. Adlewyrchir argymhellion y tri adolygiad hyn yn y canllaw diwygiedig hwn.

Mae'r canllaw hwn hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad yn strategaeth addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Y Wlad sy'n Dysgu - Gweledigaeth ar Waith' (2006) i wneud Cymru'n wlad cymuned-ganolog sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr a hefyd ar ymagwedd gynhwysol at addysg a dysgu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r strategaeth hefyd yn cymeradwyo cydweithio rhwng awdurdodau rhanbarthol i hybu'r arferion gorau a rhannu syniadau. Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni ar Draws Ffiniau' a gyhoeddwyd mewn ymateb i adroddiad Beecham, hefyd yn llywio'r canllaw hwn sy'n anelu at greu gwasanaeth addysg dinesydd-ganolog a all fod yn ymatebol i anghenion addysgol unigolion gan gynnwys rhai plant Sipsiwn-Teithwyr.

Defnyddir enghreifftiau o arferion da o ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yng Nghymru a hefyd o ddogfennau canllawiau tebyg a luniwyd ar gyfer Lloegr a'r Alban.

Yn olaf, mae'r canllaw hwn yn ystyried yn llawn Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Plant 2004.

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Adran 1 - Cefndir a Chyd-destun

Dylid defnyddio priflythrennau ar gyfer y teitlau Sipsiwn a Theithiwr bob amser.

1. Fframwaith Cyfreithiol a Diffiniadau

1.1 Cynrychiolir Sipsiwn a Theithwyr fel arfer gan dri phrif grŵp:

- Sipsiwn-Teithwyr;
- Teithwyr Galwedigaethol;
- Teithwyr yr Oes Newydd.

1.2 Mae'r term Sipsiwn-Teithwyr yn cynnwys Teithwyr Gwyddelig, Sipsiwn/Teithwyr Albanaidd, Sipsiwn o Loegr a Romani a Sipsiwn Cymreig.

1.3 Disgrifir Teithwyr yr Oes Newydd fel grŵp o'r DU a ymddangosodd yn yr 1960au. Mae rhai wedi gollwng y defnydd o 'Oes' tra bod yn well gan eraill gael eu hadnabod yn syml fel Teithwyr.

1.4 Mae Teithwyr Galwedigaethol yn cynnwys y rhai sy'n perthyn i'r cymunedau Sioeau a Ffeiriau traddodiadol, cymunedau'r Syrcas a Phobl y Cychod a busnesau teuluol eraill ar y dyfrffyrdd.

1.5 Cydnabuwyd Sipsiwn Romani gan y gyfraith er 1988 ac mae Teithwyr Gwyddelig wedi cael cydnabyddiaeth gyfreithiol fel grŵp ethnig er 2000. Mae'r ddau grŵp yn cael eu cynnwys ac yn cael eu diogelu gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

1.6 Er mwyn gwneud cyfeirio'n hawdd, defnyddir y gair cyffredinol 'Sipsiwn a Theithwyr' drwy'r canllaw hwn i gyfeirio at yr holl grwpiau a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, mae hunaniaeth nodedig a statws ethnig pob cymuned yn cael eu hadnabod a'u cydnabod.

1.7 Mae dyletswydd ar yr Awdurdodau Addysg Lleol, yn ôl y ddeddf, i sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn cael addysg sy'n briodol i'w oed, gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig; i hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a hybu lles y plant. Mae'r ymrwymiadau hyn yn berthnasol i bob plentyn pa un a yw'n byw'n barhaol mewn ardal ai peidio.

Mae Sipsiwn a Theithwyr o bob grŵp cydnabyddedig yn cael eu cynrychioli yng Nghymru a bydd angen i bob awdurdod addysg lleol o bryd i'w gilydd ddarparu addysg ar gyfer plant Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bosibl y bydd angen i bob ysgol dderbyn plant Sipsiwn a Theithwyr ar ryw adeg. Felly, arfer da ymhlith Awdurdodau Lleol ac ysgolion yw cydnabod bod gan bob Sipsi a Theithiwr yr un hawliau yn ôl y ddeddfwriaeth Cysylltiadau Hiliol ag sydd gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a Romani.

2. Diwylliant

2.1 Mae gan grwpiau Sipsiwn a Theithwyr nodweddion diwylliannol a ffordd o fyw arbennig na fyddant efallai yn cael eu deall yn gyffredinol ac sy'n gallu cyfrannu at y rhagfarn y byddant efallai yn ei brofi oddi wrth y bobl nad ydynt yn Deithwyr. Nid yw eu diwylliant hirdymor yn statig fodd bynnag, a nodwedd o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yw eu gallu i addasu i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol cyfnewidiol a chynnal eu hunaniaeth ddiwylliannol.

2.2 Mae eu nodweddion diwylliannol a'u ffordd o fyw yn cynnwys y canlynol:

- Pwyslais ar uned deuluol gref, teuluoedd mwy a theuluoedd estynedig hynod o gadarn yn aml yn byw ar yr un safle;
- Y gwerth a roddir ar blant a phwysigrwydd addysg o fewn yr uned deuluol;
- Sgiliau mentergarwch, hunangyflogaeth a hyblygrwydd wrth geisio gwaith;
- Traddodiadau diwylliannol caeth, rhai yn ymwneud â glanweithdra sy'n wahanol i'r rhai yn y gymuned sefydlog;
- Hanes o ddwyieithrwydd a'r defnydd o iaith arbennig a gwahanol;
- Synnwyr o falchder yn eu hunaniaeth ddiwylliannol;
- Traddodiad o symudedd wrth geisio gwaith a hefyd teithio am resymau teuluol a diwylliannol megis; angladdau, priodasau, salwch teuluol neu ffeiriau Sipsiwn a Theithwyr.

2.3 Mae symudedd yn nodwedd o bob cymuned o Deithwyr. O safbwynt teuluoedd y Ffeiriau a'r Syrcas, gall y lefel uchel o symudiad tymhorol olygu mai dim ond am ychydig o ddyddiau ar y tro y bydd plant yn aros mewn un ardal ac y byddant yn cadw lleoliad ac ysgol sefydlog yn y gaeaf.

2.4 Er bod rhai grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr yn dod o fewn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) nid yw eu statws ethnig bob amser yn cael ei gydnabod cystal ag ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill. Yn nodweddiadol, maent yn siarad Saesneg, felly nid oes problem iaith sydd fel arfer yn ganolbwynt dechreuol mewn gwasanaethau cynnal addysg i'r grwpiau eraill hyn. Fodd bynnag, gall acenion gwahanol, patrymau a geiriau arbennig gyfrannu at broblemau iaith, yn enwedig i blant Derbyn. Gallai caffael iaith fod yn ffactor wrth i Sipsiwn a Theithwyr fudo o wledydd y tu allan i'r DU e.e. Roma o'r Weriniaeth Tsiec, a gall gynnwys cymorth gan y Gwasanaethau Cymorth i Leiafrifoedd Ethnig i ddelio â materion iaith.

2.5 Mae cydnabod, deall a derbyn y gwahaniaethau diwylliannol hyn yn allweddol i gymorth addysgol effeithlon i ddisgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr.

2.6 Dywed Sipsiwn a Theithwyr fod bwlio a hiliaeth mewn ysgolion yn beth cyffredin. Mae hyn yn cynnwys bod yn gas a galw enwau gan ddisgyblion eraill ac weithiau, mae teuluoedd yn dweud bod staff a rhieni'n trin y plant yn wahanol er na fydd hyn efallai'n esgor ar gwynion ffurfiol. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai o bob grŵp ethnig lleiafrifol, plant Sipsiwn a Theithwyr yw'r plant mwyaf tebygol o ddioddef hiliaeth. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar arferion da fydd yn hybu cyfle cyfartal i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Dylent, dros amser, leihau'r profiadau negyddol hyn ac felly annog presenoldeb cyson yn yr ysgol.

3. Data a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD)

3.1 Mae'r map yn Atodiad 2 yn dangos lleoliad pedwar ar bymtheg o safleoedd Sipsiwn - Teithwyr yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru sy'n cynnig cyfanswm o 404 llain. Mae'r pedwar safle ar bymtheg

mewn tri ar ddeg o ardaloedd Awdurdodau Lleol, ond nid oes un safle o fewn ardal naw Awdurdod Lleol. Mae gan Sir Benfro bum safle sy'n cynnig 80 llain; Caerdydd ddau safle sy'n cynnig 77 llain a Chastell-nedd Port Talbot ddau safle sy'n cynnig 56 llain. Mae gan yr awdurdodau eraill sydd â safleoedd un bob un.

3.2 Mae'n anodd bod yn fanwl gywir am nifer y plant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ar unrhyw adeg oherwydd eu bod mor symudol. Heblaw am hynny, mae datganiadau CYBLD ar hyn o bryd yn darparu data ar ddisgyblion Teithwyr Gwyddelig a Sipsiwn Roma'n unig ac mae hyn yn ddibynnol ar rieni sy'n cynnwys eu plant o fewn y grwpiau hyn. Oherwydd rhagfarn yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr, gall rhieni, mewn rhai achosion, ddewis nodi disgrifiad arall, fel Gwyn Arall, ar gyfer eu plant. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth i nodi plant mewn categorïau Sipsiwn a Theithwyr eraill drwy CYBLD.

3.3 Yn eu hastudiaeth Cymru gyfan yn 2005, roedd y SCYA yn cynnal ymarfer ar wahân o'r holl AALlau er mwyn cael ciplun ar sail eu gwybodaeth leol o'r holl boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Fel y rhagwelwyd, roedd datganiadau mis Tachwedd 2005 yn nodi cyfanswm llawer uwch o blant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (1193), o gymharu â datganiad CYBLD ym mis Ionawr 2005 (758). Heblaw am amrywiadau amlwg oherwydd eu symudoledd, roedd anghysonderau eraill oedd yn amlygu ymhellach anawsterau casglu data cadarn.

3.4 Rhoddir ystyriaeth i ymestyn categorïau'r CYBLD ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys rhai ychwanegol at Deithwyr Gwyddelig a Sipsiwn Roma, sef y grwpiau canlynol:

- Teithwyr o wledydd eraill;
- Teithwyr yr Oes Newydd;
- Teithwyr Galwedigaethol.

3.5 Mae cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn sensitif i gategoreiddio ac yn mynegi amheuaeth fawr am bwrpas casglu data. Mae'n rhaid i AALlau ac ysgolion fod yn ymwybodol o hyn a'i ystyried wrth geisio casglu data a gwybodaeth i wella sail y dystiolaeth sydd ar gael fel sylfaen i ddarparu gwasanaethau.

4. Polisi

Awdurdodau Lleol

4.1 Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol ddatblygu polisi trosfwaol clir a chyson i gefnogi Sipsiwn a Theithwyr ar draws ei holl wasanaethau. Nodwyd hyn yn yr holl adroddiadau diweddar fel rhywbeth hanfodol i annog a chynnal cyfranogiad Sipsiwn a Theithwyr mewn addysg. (Gweler hefyd Adran 15: gweithio Aml-Asiantaethol).

4.2 Disgwylir i bob AALl ar hyn o bryd gynnwys o fewn ei Gynllun Addysg Sengl (SEP), strategaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Dylai hyn gynnwys plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr a dylai'r cynllun ganolbwyntio ar godi cyrhaeddiad y disgyblion hyn drwy gymorth priodol. Dylai hefyd gyfeirio at fonitro cynnydd a deilliannau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bwysig cofio bod gan ddisgyblion Sipsiwn-Teithwyr anghenion dysgu ychwanegol o ran y ffordd y maent yn agored i dangyflawniad, ac ni ddylai hyn gael ei gymysgu â chael Anghenion Addysgol Arbennig (gweler hefyd baragraff 13.3).

4.3 Fodd bynnag, o 2008 mae'r Cynllun Addysg Sengl wedi cael ei ddisodli gan yr angen i bob AALl gael Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CYPP). Bydd pob CYPP yn amlinellu sut mae'r AALl yn mynd i wella lles plant a phobl ifanc. Bydd y CYPP yn fwy eang na'r SEP blaenorol gan y bydd yn cynnwys yr holl wasanaethau a gynigir gan yr awdurdod lleol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

4.4 Mae'r Cod Ymarfer ar dderbyniadau i ysgolion yn nodi bod yn rhaid cael trefniadau i "gofrestru plant Sipsiwn-Teithwyr yn gyflym mewn ysgol pa un a ydynt yn byw'n barhaol neu dros dro yn yr ardal". Er mwyn hwyluso hyn, dylai'r AALlau ystyried datblygu canllaw penodol i'w hysgolion ar gynhwysiant disgyblion dros dro a thymor byr.

4.5 Cyfrifoldeb yr AALl fel arfer yw derbyn, heblaw lle mae wedi'i ddirprwyo i benaethiaid neu mewn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir neu ysgolion sefydledig lle dylai AALlau roi canllaw i'r cyntaf neu gyngor arfer da i'r olaf. Mae gan bob AALl fforwm derbyn ysgolion a ddylai sicrhau system dderbyn deg a hybu cydraddoldeb cymdeithasol drwy ystyried y plant hynny sy'n cyrraedd y tu allan i'r cyfnod derbyn arferol.

4.6 Dylai AALlau ystyried plant Sipsiwn-Teithwyr yng nghyd-destun ehangach mentrau ar gyfer plant dan anfantais megis Cymorth a Dechrau'n Deg ac ystyried sut y gallent fanteisio'r grŵp hyn o blant.

Ysgolion

4.7 Nodwyd arweiniad cryf sy'n canolbwyntio ar hybu cyfle cyfartal i bob disgybl, fel prif ffactor wrth leihau'r rhwystrau i addysg i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr a'u teuluoedd.

4.8 Ni ddisgwylir i ysgolion gael polisïau ar wahân i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr gan y gallai hyn gael yr effaith o bwysleisio gwahaniaethau yn hytrach na hybu cynhwysiant. Fodd bynnag, argymhellir bod polisïau a strategaethau gwrth-fwlio, gwrth-hiliaeth a chyfle cyfartal yn ystyried anghenion penodol y disgyblion hynny ac yn cyfeirio'n benodol at sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

4.9 Bydd cynyddu proffil cydraddoldeb hiliol o fewn yr ysgol yn arwain at arfer mwy effeithlon i'r holl ddisgyblion ac yn hybu parch at grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.

4.10 Bydd sefydlu cymorth cyfaill neu gyfoed fel rhan o strategaethau gwrth-fwlio a gwrth-hiliaeth yn debygol o gynnig cymorth ymarferol i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Er, dylid ystyried y posibilrwydd na fyddai disgyblion Sipsiwn-Teithwyr yn derbyn cyfaill sydd ddim yn Sipsiwn-Teithwyr yn hawdd. Gall amser cylch mewn ysgolion cynradd, cynghorau ysgolion a chynlluniau mentor mewn ysgolion uwchradd, fod yn effeithlon wrth wella hyder disgyblion a phresenoldeb yr holl ddisgyblion bregus, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.

4.11 Cydnabyddir nad yw'n realistig disgwyl i ddisgyblion Sipsiwn-Teithwyr beidio amddiffyn eu hun yn erbyn trais neu alw enwau cas, gan eu bod wedi eu magu i amddiffyn eu hunain.

4.12 Dylai ysgolion ddatblygu mecanwaith a chefnogaeth bwrpasol i sicrhau bod disgyblion Sipsiwn-Teithwyr yn cymryd rhan weithredol ar gynghorau ysgol.

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

5. Cwricwlwm - cynyddu cyrhaeddiad plant Sipsiwn a Theithwyr

Datblygiadau Cenedlaethol

5.1 Mae'r datganiad ar 'Gynnwys yr Holl Ddysgwyr' yn rhagflaenu'r holl orchmynion pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y nod yw dileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hybu agweddau cadarnhaol, cyfle cyfartal a chyfranogiad ym mhob maes o fywyd ysgol.

5.2 Mae'r Cyfnod Sylfaen, ymagwedd newydd tuag at ddysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru, yn darparu cyfleoedd datblygiadol priodol ac yn gosod disgwyliadau uchel yn gynnar a fydd yn galluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial ac yn darparu'r sgiliau a'r symbyliad iddynt fod yn ddysgwyr gydol oes.

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn hybu cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth. Ei nod yw cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, dathlu gwahaniaethau diwylliannol a helpu plant i adnabod ac ennyn ymwybyddiaeth bositif o'u diwylliannau eu hunain a rhai pobl eraill.

5.3 Mae datblygiad Llwybrau Dysgu 14-19 yn cynnig amrediad ehangach o gyrsiau a chymwysterau y bydd mwy o bobl ifanc yn eu hystyried yn berthnasol, gyda chymorth gan diwtoriaid dysgu a gwell cyngor gyrfaoedd. Hefyd, bydd mynediad i well amrediad o Gymorth Personol pan fydd ei angen. Llunnir hwn i annog pob person ifanc ond bydd yn hynod o ddefnyddiol i'r rhai lle mae eu presenoldeb mewn ysgol uwchradd yn isel iawn.

5.4 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad hirdymor i ddarparu mynediad cyffredinol i wasanaethau eirioli i holl blant a phobl ifanc Cymru. Bydd ffocws penodol ar gefnogi grwpiau bregus a fyddai'n cynnwys plant Sipsiwn - Teithwyr. Gwnaeth Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyhoeddiad ar ddyfodol datblygiad gwasanaethau eirioli i blant yng Nghymru ar 4 Rhagfyr 2007. Gallwch weld cyhoeddiad y Gweinidog yn www.plantyngyntaf.cymru.gov.uk.

5.5 Er nad oes un o'r datblygiadau hyn yn benodol i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr, byddant yn ymdrin â nifer o ymagweddau sy'n berthnasol i'r arfer da a gyflwynir yn y canllaw hwn.

Materion Cwricwlwm Sipsiwn a Theithwyr

5.6 Mae mwyafrif rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn cydnabod budd addysg gynradd i'w plant ac maent yn awyddus i'w plant fynychu'r ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 i ennill sgiliau llythrennedd a rhifedd.

5.7 Fodd bynnag, mae Sipsiwn a Theithwyr fel arfer yn ystyried yr ysgol fel rhywle sy'n darparu rhan o addysg eu plant yn unig gyda'r gweddill yn cael ei ddarparu gan gymuned y Teithwyr. Mae hyn yn cynnwys bechgyn sy'n gweithio gyda'u tadau o oed cymharol ifanc a merched sy'n helpu'n sylweddol gyda gofal plant a thasgau domestig i baratoi ar gyfer rhedeg cartref a magu plant. Yn genedlaethol, disgyblion Sipsiwn-Teithwyr sy'n perfformio wanaf o unrhyw grŵp lleiafrif ethnig ac maent dan risg uchel o dangyflawni yn y system addysg.

5.8 Yn aml, bydd rhieni Sipsiwn a Theithwyr wedi cael profiadau negyddol o ysgol uwchradd. Ynghyd â'u pryderon diwylliannol a moesegol am addysg ryw, diwylliant cyffuriau ac ymddygiad plant yn eu harddegau, mae hefyd amharodrwydd cyffredin ymhlith nifer o rieni Sipsiwn a Theithwyr i ganiatáu i'w plant aros yn yr ysgol drwy addysg uwchradd. Nid oes llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3.

5.9 Fodd bynnag, mae astudiaethau diweddar wedi nodi rhai newidiadau yn agwedd rhieni. Yn gynyddol, mae'r rhieni'n cydnabod efallai bod pobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr angen ymgymryd â gwaith cyflogedig wrth i nifer y cyfleoedd traddodiadol ar gyfer hunangyflogaeth ostwng ac na fydd gan eu plant, heb gymwysterau, lawer o ddewis o swyddi neu dim ond swyddi â chyflogau isel.

5.10 Gwelwyd bod darparu cyfleoedd cwricwlwm hyblyg sy'n canolbwyntio ar berthnasedd i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr

yn brif ffactor mewn cynnwys mwy o blant Sipsiwn a Theithwyr mewn addysg yn hwy, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd. Ynghyd â gwaith positif gyda rhieni, mae rhai AALlau wedi gallu cynyddu'n sylweddol gyfraddau cadw'r grŵp hwn o ddisgyblion.

5.11 Mae cwricwlwm sy'n ddiwylliannol berthnasol ac yn un cadarnhaol yn bwysig i bob disgybl. Mae'n arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn a Theithwyr weld bod eu diwylliant, eu hanes, eu hiaith a'u gwerthoedd yn cael eu hadlewyrchu yn eu profiadau yn yr ysgol. Dylai pob ysgol ystyried cyfleoedd cwricwlaidd yn ofalus, er enghraifft, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr, pa un a oes disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn mynychu'r ysgol ai peidio.

5.12 Mae methodoleg addysg sy'n delio ag amrediad o ddulliau dysgu, gan gynnwys dysgu drwy TG, yn debygol o wella symbyliad disgyblion Sipsiwn a Theithwyr, na fyddant yn gallu gweithio'n dda gyda dysgu drwy waith papur yn bennaf.

Dylai pob ysgol, pa un a oes Sipsiwn a Theithwyr ar y gofrestr ai peidio, fod ag adnoddau mewn dosbarthiadau a llyfrgelloedd sy'n rhoi golwg bositif o ffordd o fyw a diwylliant Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn ychwanegu at ansawdd a chywirdeb gwybodaeth i bob plentyn. Gall y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr, lle y mae yn bodoli, gynghori ar ddeunyddiau addas.

Blynyddoedd Cyn-ysgol a Chynnar

5.13 Yn aml iawn, bydd plant Sipsiwn a Theithwyr yn dechrau yn yr ysgol gydag ychydig neu ddim profiad o sefyllfaoedd cyn-ysgol. Gall hyn eu rhoi dan anfantais ac mewn risg uwch o dangyflawni academaidd oherwydd eu bod wedi colli cyfleoedd sgiliau sylfaenol a chymdeithasoli y tu allan i'w cymunedau eu hunain. Mae'n bosibl y byddant wedi colli'r asesiadau gwaelodlin oherwydd y teithio.

5.14 Er ei bod yn bosibl bod gan blant cyn-ysgol Sipsiwn a Theithwyr sgiliau nad sydd gan blant eraill, mae'n bosibl y bydd y ffaith na fyddant wedi defnyddio llyfrau a dysgu drwy chwarae yn eu gosod mewn gwaelodlin is o sgiliau'n ymwneud â llythrennedd pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar hybu mynediad i blant Sipsiwn a Theithwyr i ddarpariaeth gyn-ysgol a meithrinfa bresennol e.e. drwy leoli staff mewn meithrinfa i gefnogi rhieni pan fydd y plant yn dechrau ac i ddangos gwerth dysgu i rieni.

Mae un AALl yn cysylltu â phrosiect iaith a chwarae ac yn darparu gweithgareddau chwarae mewn bws ar y safle.

Mae'r Prosiect Priory yn Sir Benfro'n cymryd ymagwedd holistaidd at gefnogi disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n dechrau gyda grŵp chwarae integredig, gan symud drwy gymorth cynradd ac uwchradd ac yn cynnwys Canolfan Ddysgu Priory lle cynigir pynciau galwedigaethol. Mae darpariaeth debyg ar gael gan AALlau eraill wedi eu teilwra i anghenion cymuned Deithiol eu hardal.

Addysg Gynradd a Throsglwyddo

5.15 Yn gyffredinol, mae mynediad y disgyblion Sipsiwn a Theithwyr hynny'n sy'n hysbys i'r AALlau, i addysg gynradd yn gymharol lwyddiannus.

5.16 Mae Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd a ddatblygwyd yn lleol ar y cyd gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cynnig rhai cyfleoedd i ddelio ag unrhyw ddiffygion mewn llythrennedd a rhifedd a all ddigwydd o ganlyniad i ddysgu bylchog neu brofiad cyfyngedig o addysg gyn-ysgol. Bydd cynnydd yn y sgiliau hyn yn cael eu tanategu ymhellach gan y fframwaith sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig a weithredir ym mis Medi 2008.

5.17 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynnig cymorth i grwpiau sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol, gan gynnwys Sipsiwn-Teithwyr, drwy ei strategaeth i wella llythrennedd a rhifedd sylfaenol yng Nghymru. Mae *Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 15/2005) yn cael ei reoli gan Sgiliau Sylfaenol Cymru.

5.18 Pan fydd angen, gall ysgolion gynnal profion diagnostig a chynnig cymorth grŵp neu unigol i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

5.19 Rhaid bod yn ofalus wrth gefnogi plant Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau nad ydynt yn cael eu grwpio gyda disgyblion eraill sydd wedi'u nodi fel rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'n bosibl na fydd hyn yn briodol os na fydd eu cyraeddiadau is o ganlyniad i AAA a gallai ladd symbyliad y disgyblion hyn a'u teuluoedd. Fodd bynnag, lle adnabyddir anghenion addysgol arbennig dylai ysgolion ddefnyddio prosesau Cod Ymddygiad AAA pan mae'n angenrheidiol i hwyluso mynediad at gefnogaeth a chyfeiriad addas i Asesiadau Statudol.

5.20 Dylai ysgolion warchod yn erbyn bod â disgwyliadau isel am ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr, a gweld y gallai cyraeddiadau cymharol is oherwydd dysgu bylchog gael eu cydbwyso gan fwy o wybodaeth a dealltwriaeth mewn sgiliau eraill sy'n berthnasol i'w diwylliant. Mae hefyd yn bwysig i athrawon a gweithwyr cefnogol sicrhau nad ydynt yn bodloni'n awtomatig ar gyrhaeddiad Sipsiwn-Teithwyr dim ond oherwydd bod eu cyrhaeddiad yn uwch na'r cyfartaledd; mae angen cymorth ar ddisgyblion Sipsiwn-Teithwyr gyda dawn uwch na'r cyfartaledd mewn rhai pynciau er mwyn cyflawni eu llawn botensial. Bydd eu llwyddiant hefyd yn annog y gymuned Sipsiwn-Teithwyr ehangach i gefnogi addysg eu plant mewn ysgolion.

5.21 Dylai ysgolion geisio cyfleoedd i adlewyrchu diwylliant Sipsiwn a Theithwyr mewn deunyddiau cwricwlwm fel rhan o'u strategaethau i'w cynnwys.

5.22 Mae'r trosglwyddo o ysgol gynradd i uwchradd yn amser hanfodol i bawb, ond yn enwedig i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr

a bydd perthnasoedd cadarn gyda rhieni a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, empathi gyda'u pryderon, hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm uwchradd a chymorth addas cyn ac ar ôl y trosglwyddo, yn ffactorau pwysig i sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus.

5.23 Disgwylir i Gyrff Llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir, a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, lunio Cynlluniau Trosglwyddo. Mae'r cynlluniau cyntaf yn ymwneud â throsglwyddo disgyblion Blwyddyn 6 i Gyfnod Allweddol 3 ym mis Medi 2008. Mae hyn yn rhoi cyfle clir i ysgolion ddelio ag anghenion arbennig disgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

5.24 Mae pwysigrwydd rhoi sylw arbennig i drefniadau trosglwyddo i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei adlewyrchu yn y gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais am Grant Penodol ar gyfer Addysg i Deithwyr. Ni ellir gor-bwysleisio addasrwydd prosiectau o'r fath ar gyfer arian grant.

5.25 Dylai AALlau ystyried penodi swyddog i arwain ar drefniannau trosglwyddo disgyblion Sipsiwn a Theithwyr er mwyn darparu anogaeth a chymorth ac i osgoi achosion o blant sy'n gadael y system addysg heb i neb sylwi.

Roedd prosiect 'Gwreiddiau Tor-faen' yn ymwneud â disgyblion yn edrych ar hanes a gwreiddiau eu teuluoedd ac yn cynnwys plant yn cofnodi cyfweliadau gyda pherthnasau hŷn. Datgelodd hyn llawer o wybodaeth am hanes teuluoedd lleol, gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr yn gallu rhannu hanes eu teuluoedd gyda phlant eraill. Creodd amrediad o weithgareddau diwylliannolhanesyddol fel ymweliadau teuluoedd â'r Pwll Mawr (Amgueddfa Lo Genedlaethol, Blaenafon) i ddysgu am gloddio am lo.

Datblygodd un Gwasanaeth Addysg i Deithwyr brosiect mewn ysgol i fabanod mewn cymuned lle dangoswyd agweddau negyddol tuag at Sipsiwn a Theithwyr. Dechreuodd hwn gyda Wind in the Willows. Oherwydd bod un o'r cymeriadau'n byw mewn carafán, datblygodd yn brosiect ar Sipsiwn a Theithwyr. Roedd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn mynd i'r ysgol i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 2. Ystyriwyd bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr.

Mae rhai ysgolion cynradd wedi addasu eu cwricwlwm i'w wneud yn fwy perthnasol i Blant Sipsiwn a Theithwyr. Gall y gwersi gynnwys astudiaeth o garafannau ochr yn ochr â mathau eraill o gartrefi, gwaith ar baentio carafán, gwaith wedi'i seilio ar brif ffeiriau Sipsiwn-Teithwyr, fel Stow, a phwyslais arbennig ar geffylau a chŵn, fel rhan o astudiaeth ehangach o anifeiliaid ac ati.

Addysg Uwchradd - Cyfnod Allweddol 3

5.26 Mae llwyddo i drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3 yn debygol o alw am hyblygrwydd sylweddol, gan ganolbwyntio ar hygyrchedd a pherthnasedd.

5.27 Nid yw rhai rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo bod addysg uwchradd yn ddiwylliannol berthnasol i'w ffordd o fyw ac mae'n bosibl y bydd ganddynt rai pryderon am ddiogelwch eu plant yn amgylchedd ysgol uwchradd. Roedd nifer y ceisiadau am Grant Addysg i Deithwyr yn 2007 yn datgelu yr amcangyfrifir mai tua chwarter y rhai sy'n mynychu addysg gynradd yw nifer y plant Sipsiwn a Theithwyr sy'n mynychu addysg uwchradd.

5.28 Er iddo ganfod arfer da mewn rhai ardaloedd, daeth Estyn i'r casgliad, yn ei arolwg yn 2005, nad yw'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn gwneud llawer i annog dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr i aros yn yr ysgol. Roeddent hefyd yn canfod disgwyliadau isel ar ran nifer o'r athrawon prif ffrwd; ychydig bach

iawn o dystiolaeth bod y cwricwlwm wedi'i addasu mewn unrhyw fodd ac ychydig iawn o enghreifftiau o gyfleoedd a welwyd o fewn y cwricwlwm i hybu agweddau positif diwylliant Sipsiwn a Theithwyr.

5.29 Er nad yw'n hawl, gall fod yn briodol mewn rhai achosion i ysgolion ganiatáu presenoldeb rhan amser ar y dechrau ar gyfer amserlen o bynciau y cytunwyd arnynt ac a ystyrir gan y teuluoedd fel y rhai mwyaf perthnasol, yn y gobaith y gellir lleddfu pryderon disgyblion a theuluoedd ac y gall arwain at well presenoldeb. Bydd cynnal peth presenoldeb yn ystod Cyfnod Allweddol 3 yn hybu mynediad i'r cyfleoedd mwy hyblyg sy'n cael eu cynnig o fewn Llwybrau Dysgu 14-19. (Gweler hefyd addysgu hyblyg, adran 6 paragraff 2.8, Cylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 47/2006.)

5.30 Mae rhai AALlau wedi delio â phryderon rhieni am ysgolion uwchradd drwy gynnig darpariaeth uwchradd mewn mannau sydd wedi'u cysylltu â'r ysgolion cynradd. Mae hyn wedi arwain at welliant ym mhresenoldeb ar lefel uwchradd. Mae'r farn am ymagwedd fel hyn yn amrywio, gan fod rhai'n ystyried nad yw hyn yn gynhwysol. Mae'n rhaid i bob AALl gydbwyso'r ystyriaeth hon yn erbyn y buddiannau posibl i ddisgyblion na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn addysg uwchradd.

Mae Dinas a Sir Abertawe yn gweithredu model cymysg o ddarpariaeth i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr sy'n cynnwys cymorth i'r disgyblion hynny sy'n mynychu ysgolion cyfun. Mae'r cymorth i'r rhai nad ydynt yn mynychu ysgol uwchradd yn cynnwys bws dysgu a safle dosbarth dysgu (heb ei gysylltu i ysgol gynradd) sydd wedi bod yn llwyddiannus trwy gadw disgyblion Teithwyr yn rhan o ddysgu ac wedi arwain yn y pen draw at dderbyn rhai disgyblion i ysgol gyfun.

Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt: Llwybrau Dysgu 14-19

5.31 Mae trosglwyddiad i Gyfnod Allweddol 4 yn gam pwysig arall yn addysg disgyblion Sipsiwn a Theithwyr gan fod diwylliant

Sipsiwn a Theithwyr yn disgwyl i fechgyn weithio ym musnesau traddodiadol y teulu ac i ferched gymryd cyfrifoldeb am y cartref a'r teulu unwaith y maent yn cyrraedd 13 neu 14 oed. Yn gyffredinol, ymhlith teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr disgwylir y bydd sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi datblygu'n ddigonol erbyn hynny i gyflawni anghenion ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bosibl na fyddant yn ystyried agweddau eraill ar y cwricwlwm fel rhywbeth sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

5.32 Mae'r gostyngiad mewn rhai cyfleoedd gwaith tymhorol traddodiadol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, fel ffermio, yn golygu bod rhai teuluoedd yn awr yn cydnabod yr angen am i'w plant gael cymwysterau galwedigaethol a chwilio am waith y tu allan i'r teulu ond gan barhau i fyw ar y safle.

5.33 Mae'r amrediad cynyddol o opsiynau galwedigaethol sydd ar gael mewn ysgolion o fewn llwybrau 14-19, a rhai trefniadau eraill o fewn y cwricwlwm a wnaed gan AALlau, yn debygol o gynnig gwell cyfleoedd i blant hŷn Sipsiwn a Theithwyr i barhau o fewn y maes addysg.

5.34 Dylid bod yn ofalus i beidio â disgwyl bod cyraeddiadau disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn isel a rhagdybio mai'r unig opsiynau sy'n agored iddynt yw rhai galwedigaethol. Er eu bod yn anghyffredin, mae yna enghreifftiau o ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi aros yn yr ysgol i sefyll arholiadau safon uwch ac wedi cael eu derbyn i brifysgol.

Galluogodd prosiect a gefnogwyd gan arian EQUAL yn Abertawe i grŵp o fechgyn Teithiol a'u tadau fynychu cwrs gosod blociau pafin ar y cyd, gan barhau â'r 'model prentisiaeth' o ddysgu a ddefnyddir gan y gymuned lle mae Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn dysgu ochr yn ochr ag oedolion y gymuned a gwneud rhieni yn rhan o ffurfiau dysgu mwy ffurfiol.

Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, cynigir pynciau cwricwlwm amgen a gweithgareddau ar ôl ysgol i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr hŷn ar y cyd gydag asiantaethau lleol eraill fel Mynediad Ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys gweithdy mecanig ceir ar ôl ysgol, clwb gwaith cartref a grŵp merched.

6. Gwaith cartref

6.1 Mae'n bosibl y bydd gwaith cartref yn creu cryn her i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bosibl na fydd lle addas yn y cartref i wneud gwaith cartref ac mae'n bosibl na fydd rhieni'n gallu cynnig cymorth oherwydd eu profiad addysgol cyfyngedig hwy.

6.2 Dylai ysgolion ystyried sut orau i ddarparu cymorth mewn sefyllfaoedd o'r fath. Nid yw'r rhain yn unigryw i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Nid yw clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol yn debygol o gynnig opsiwn addas i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn arbennig pan fyddant yn cael eu cludo i'r ysgol, ond gallai opsiynau amser cinio a/neu gyfleoedd ar gyfer cymorth mentor fod yn fwy hygyrch, ond mae angen cymryd gofal i sicrhau nad yw cyfleoedd o'r fath yn creu teimladau o arwahanrwydd.

Mewn rhai AALlau, mae clybiau gwaith cartref yn cael eu cynnig ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan Wasanaethau Addysg i Deithwyr ac mae gan un AALl fws sy'n ymweld â'r safleoedd i gynnig cymorth gyda'r gwaith cartref.

7. Mynediad a Phresenoldeb

7.1 Bydd arfer sefydlu da mewn ysgolion yn ystyried anghenion cymdeithasol disgyblion newydd ynghyd â'u hanghenion academaidd. Bydd hyn o fudd mawr i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

7.2 Fel yr amlygwyd ynghynt, mae cynnwys rhieni yn ystod y cyfnod cyn-ysgol yn annog presenoldeb yn y feithrinfa, yn gwella

profiadau dysgu cynnar ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o fynediad positif i addysg gynradd. Po fwyaf positif fydd y profiadau dysgu cynnar, mwyaf tebygol yw hi y bydd plant a phobl ifanc Sipsiwn - Teithwyr yn aros ym myd addysg.

7.3 Fel i bob rhiant, mae'n bwysig bod rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo bod croeso iddynt hwy a'u plant yn yr ysgol. Mae'n bosibl y byddant wedi wynebu gelyniaeth o fewn y gymuned a gall hyn gynyddu eu pryderon am yr ysgol.

7.4 Gall ysgolion fabwysiadu rhai mesurau syml i sicrhau bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo eu bod yn cael croeso.

Yn ddelfrydol, dylai bob ysgol ddynodi aelod addas o'r staff uwch fydd yn berson cyswllt enwebedig i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Ni ddylai hon fod yn dasg ychwanegol i effeithio ar faich gwaith gan y gall materion gael eu cyfeirio ymlaen at yr aelod staff perthnasol yn ôl yr angen. Bydd hyn yn gymorth i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ddeall strwythurau staff ysgol a all fod yn ddryslyd iddynt wrth gysylltu â'r ysgol am y tro cyntaf gydag unrhyw gwestiwn neu bryder.

Dylai staff gweinyddol groesawu rhieni a disgyblion a bod yn sensitif wrth gynnig cymorth i gwblhau ffurflenni ac yn y blaen, yn ôl yr angen.

Dylai'r pennaeth neu uwch aelod o'r staff gyfarfod â'r rhieni a'r disgybl(ion) i egluro polisïau'r ysgol (gweler yr adran bolisi) a chytuno sut bydd yr ysgol a'r teulu'n cyfathrebu â'i gilydd.

Yn ddelfrydol, bydd hyfforddiant/codi ymwybyddiaeth wedi'u ddarparu i'r holl staff ar y prif faterion sy'n ymwneud â diwylliant Sipsiwn a Theithwyr a'r effaith posibl ar eu haddysg.

Nod y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn Sir Benfro yw sicrhau bod rhieni Sipsiwn-Teithwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol. Mae eu rhaglen addysg oedolion a'r rhaglenni ar gyfer plant hŷn nad ydynt yn trosglwyddo'n dda i addysg Uwchradd, yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

7.5 Ar ôl i blant Sipsiwn a Theithwyr ddod i'r ysgol, mae'n bosibl y bydd lefelau'r presenoldeb yn is nag i grwpiau eraill o blant. Heblaw am y bylchau amlwg mewn presenoldeb oherwydd teithio i chwilio am waith, gall y gwahaniaethau mewn diwylliant ac agweddau tuag at addysg olygu bod plant Sipsiwn a Theithwyr yn absennol yn amlach na'u cyfoedion. Gall hyn gynnwys teithio oherwydd ymrwymiadau a digwyddiadau teuluol fel priodasau, angladdau a ffeiriau ceffylau blynyddol.

7.6 Y sefyllfa gyfreithiol yw y gellir ystyried absenoldeb i deithio ar gyfer gwaith ac ar gyfer digwyddiadau diwylliannol neu deuluol arwyddocaol, os hysbysir yr ysgolion, fel absenoldeb awdurdodedig. Ni fydd rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu herlyn am bresenoldeb gwael pan fydd disgybl wedi mynychu 200 sesiwn yn y flwyddyn flaenorol a bod yr absenoldeb wedi'i awdurdodi ar gyfer gwaith neu ddigwyddiadau diwylliannol. Dylai AALlau gamu'n ofalus rhwng cael y presenoldeb ysgol gorau posibl a'r risg o ddieithrio teuluoedd y maent yn gobeithio gweithio mewn partneriaeth â hwy.

7.7 Mae'n bosibl y bydd teuluoedd symudol yn gyndyn i roi manylion am eu symudiadau naill ai oherwydd eu hangen am breifatrwydd neu oherwydd ansicrwydd eu trefniadau. Mae perthynas rhieni-ysgol dda yn debygol o greu mwy o ddidwylledd am gynlluniau teithio a bydd hyn yn arwain at fwy o eglurder ynglŷn â chaniatáu absenoldeb.

Mae'n bosibl y bydd AALlau yn dymuno rhoi llythyr safonol i ysgolion i'w gwblhau gan rieni plant Sipsiwn-Teithwyr lle gallant roi enw'r plentyn yn unig a'r dyddiadau teithio arfaethedig.

7.8 Ni ddylid ystyried 200 sesiwn y flwyddyn fel targed presenoldeb i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr gan y bydd y lefel hon o bresenoldeb yn sicr yn cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae rhai AALlau wedi cael llwyddiant sylweddol wrth godi lefel presenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion.

7.9 Mae'n bosibl y bydd y teuluoedd mwyaf symudol (e.e. Teithwyr ochr y ffordd) yn cael eu symud yn aml a gall fod amharodrwydd i dderbyn y plant hynny i'r ysgol gan na fydd eu harhosiad yn hir. Cydnabyddir yr anawsterau logistaidd i ysgolion ag AALlau, ond mae'n arfer da sicrhau bod disgyblion o'r fath yn cael eu derbyn cyn gynted ag sy'n bosibl a'u croesawu yn ystod eu harhosiad yn yr ardal.

Argymhellir bod ysgolion sy'n derbyn plant Sipsiwn a Theithwyr yn rheolaidd yn gweithio gyda'u AALlau (yn arbennig Gwasanaethau Lles Addysg a Gwasanaethau Addysg i Deithwyr, pan fydd y rhain ar gael) i ganfod y cymorth fydd o bosibl yn gwella presenoldeb ac i osod targedau ysgol unigol i wella mynediad, presenoldeb a chyrhaeddiad cyffredinol y grŵp hwn o ddisgyblion.

Bydd cyswllt ar y diwrnod cyntaf yn dilyn diffyg presenoldeb yn hybu'r neges o'r ysgolion eu bod yn gwerthfawrogi presenoldeb y disgybl. Serch hynny, cydnabyddir y gall bod pwysau gwaith gweinyddol ar yr ysgolion, yn ogystal ag anawsterau ymarferol a allai rwystro cyswllt, megis newid mewn rhifau ffôn.

Mae cysylltiad positif o'r ysgolion (h.y. cydnabod llwyddiant yn hytrach na chyfyngu i broblemau) yn hybu gwell presenoldeb.

Bydd cymorth sensitif wedi'i dargedu a mentora sy'n meithrin synnwyr cyrhaeddiad cyflym, yn hybu agwedd bositif at yr ysgol gan y disgyblion a'r rhieni.

8. Dysgu bylchog - hybu parhad

8.1 Mae symudedd, diwylliant a ffordd o fyw'n cyfrannu at y patrwm a adnabyddir yn gyffredin fel dysgu bylchog. Mae disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn dilyn y patrwm dysgu hwn yn rheolaidd.

8.2 Pan fydd teithio'n dilyn patrwm rheolaidd, mae'n bosibl y bydd plant yn cael eu derbyn ac yn cael eu cofrestru mewn nifer o ysgolion wrth iddynt deithio ar hyd eu llwybr blynyddol. Mae hyn yn dangos parhad ynddo'i hun. Mae'n bosibl y bydd y disgyblion hyn yn cofrestru ddwywaith h.y. yn yr ysgol y maent yn dychwelyd iddi yn rheolaidd a hefyd yn yr ysgol(ion) y byddant yn eu mynychu wrth deithio.

8.3 Mae system sy'n cynnig cofnod yn llaw rhiant neu ddisgybl yn debygol o fod yn ddefnyddiol i rannu gwybodaeth rhwng ysgolion gan leihau'r amharu ar addysg y plant sy'n newid ysgol yn aml ac i gynorthwyo ysgolion wrth dderbyn disgyblion efallai am gyfnodau byr. Gall hwn gynnwys Cynllun Addysg Unigol (CAU) lle mae gan y plentyn anghenion dysgu arbennig neu ychwanegol.

8.4 Mewn achosion eraill, mae'n bosibl na fydd gan deuluoedd gynlluniau pendant ond mae'n bosibl y byddant yn gallu cynghori ysgol 'y cartref' am hyd tebygol eu cyfnod teithio a phryd y byddant yn debygol o ddychwelyd. Mae hyn yn digwydd yn arbennig yn achos teuluoedd ar safle gan y gallant gadw eu llain am gyfnod penodol yn unig. Mewn achosion o'r fath, gall darparu pecynnau gwaith a threfniadau wedi cytuno arnynt i ddychwelyd gwaith pan fydd y teithio wedi'i ymestyn, helpu i gynnal rhywfaint o gynnydd addysgol yn ystod y cyfnod hwn pan na fydd disgyblion efallai'n mynychu ysgol.

Pan fydd pecynnau adnoddau/gwaith yn cael eu darparu ar gyfer cyfnodau o deithio, byddai'n ddefnyddiol petai rhif ffôn athro/athrawes addas yn cael ei gynnig. Er mai cyfyng yw hygyrchedd y rhyngrwyd i deuluoedd symudol wrth deithio, ar hyn o bryd, gallai hyn roi cyfle i gynnal cysylltiad, cyfnewid gwaith a rhoi cyngor/cymorth ac ati.

9. Addysg Gartref

9.1 Mae Cylchlythyr 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' yn cynnwys adrannau ar ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol (adran 5) ac ar addysg ddewisol yn y cartref (adran 6).

9.2 Fel i bob rhiant, mae gan rieni Sipsiwn a Theithwyr yr hawl i ddewis darparu addysg gartref i'w plant. Er eu bod yn defnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer plant iau weithiau, mae rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn ffafrio'r opsiwn hwn amlaf yn ystod y trosglwyddiad i ysgolion uwchradd neu yn ystod addysg uwchradd yn lle parhau gydag addysg ffurfiol mewn ysgolion.

9.3 Mae rhwymedigaeth ar rieni sy'n dewis addysg gartref i ddarparu addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w oed, dawn, gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn. Mae dyletswydd ar AALlau i ymyrryd i blant sy'n derbyn addysg gartref os bydd y rhieni'n methu â phrofi bod y plentyn yn derbyn addysg ac i roi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol os bydd yr AALl yn ystyried y dylai'r plentyn fynychu ysgol.

9.4 Mae rhai AALlau yn cynnig hyfforddiant cyfyngedig yn y cartref a chymorth ar gyfer addysg gartref ar gyfer rhai plant Sipsiwn a Theithwyr. Bydd penderfyniadau o'r fath yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac unigol. Mae'n angen i'r AALlau gydbwyso eu penderfyniadau i ddarparu dewisiadau eraill heblaw addysg wedi ei leoli mewn ysgol yn erbyn y posibilrwydd y gall hyn annog rhieni Sipsiwn a Theithwyr i ddewis addysg gartref gan gredu y bydd hyn yn cynnig dewis arall gydag adnoddau yn hytrach na mynychu ysgol. Mynychu ysgol, hyd yn oed yn hyblyg, ddylai fod yn nod hyd y mae hynny'n bosibl gan y bydd hyn bob amser yn rhoi'r amrediad gorau o gyfleoedd i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

Adran 3 - Adnoddau i gefnogi Addysg Sipsiwn a Theithwyr

10. Gwasanaethau Cymorth yr AALl

10.1 Ar hyn o bryd, mae gan bedwar AALl gyda phoblogaethau sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr, Wasanaethau Addysg i Deithwyr (TES) penodedig. Y rhain yw Caerdydd, Sir y Fflint, Abertawe a Wrecsam. Mae'r rhain yn darparu amrediad o wasanaethau cefnogi i ysgolion a theuluoedd, i hybu mynediad i addysg ac yna i godi cyrhaeddiad ar ôl i blant ddechrau yn yr ysgol. Hefyd, gallant gadw cysylltiad gyda theuluoedd wrth iddynt deithio a chefnogi ail-gynhwysiad mewn ysgol, ar ôl iddynt ddychwelyd.

10.2 Mae staff peripatetig o fewn Gwasanaethau Addysg i Deithwyr penodedig yn debygol o chwarae rôl arwyddocaol wrth gefnogi mynediad i addysg i blant Sipsiwn a Theithwyr ac wrth gysylltu'n rheolaidd â theuluoedd yn eu cartrefi i greu ymddiriedaeth a newid eu canfyddiadau negyddol am addysg, ond gan barchu diwylliant neilltuol Sipsiwn a Theithwyr.

Mewn un AALl, mae gan y TES lyfrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg ac arddangosfeydd sy'n adlewyrchu diwylliant Sipsiwn-Teithwyr. Mae'r AALl yn rhoi llyfrau darllen cynnar, a gynhyrchwyd yn arbennig, ar fenthyg i ysgolion y mae disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn eu mynychu. Mae gan y TES amrywiaeth eang o ddeunyddiau perthnasol i'w diwylliant sy'n cael eu defnyddio'n effeithlon mewn arddangosfa o'r enw "Dathlu Llwyddiant".

10.3 Mae gan AALlau eraill drefniadau o fewn eu gwasanaethau cefnogi (lles addysg, gwella ysgolion, cymorth dysgu ac yn y blaen) i ymateb i angen mwy achlysurol i gefnogi disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Argymhellir bod yr AALlau hyn yn datblygu perthnasoedd cefnogol tebyg gyda theuluoedd Sipsiwn-Teithwyr i'r AALlau hynny sydd â Gwasanaethau Addysg i Deithwyr.

10.4 Gan y bydd pob AALl, ar ryw adeg, yn derbyn disgyblion Sipsiwn a Theithwyr i'w hysgolion, mae'n bwysig bod ganddynt drefniadau i sicrhau y derbynnir y disgyblion hyn i'r ysgol yn gyflym ac ar gyfer darparu cymorth i ddisgyblion sydd newydd eu derbyn.

11. Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

11.1 Mae dogfen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ymestyn Hawliau yn nodi'r deg hawl cyffredinol ar gyfer pob person ifanc yng Nghymru sy'n 11-25 oed. Mae'r canllawiau ar y Ddeddf Plant, Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau, yn ategu pa mor bwysig yw hi i weithredu'r deg hawl, er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn dysgu, manteisio ar gyfleodd a chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol yn eu cymunedau. Yng Nghymru, mae nifer o brosiectau/ mentrau penodol yn bodoli o fewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol fel y canlynol:

- Wrecsam sy'n cynnig cyfleoedd adloniant a hamdden ar gyfer pobl ifanc teithiol a hefyd mae'n eu cynnwys mewn Fforymau Ieuenctid lleol;
- Ceredigion, sy'n gweithio gyda phobl ifanc teithiol i'w hysbysu am yr amrediad o wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw;
- Canolfan Ieuenctid Caer Castell yn Nhredelerch, Caerdydd.

12. Hyfforddiant staff

12.1 Mae'r Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) newydd yn anelu at ddelio â'r safonau y dylai athrawon newydd gymhwyso eu cyflawni o safbwynt disgyblion o bob cefndir diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac ethnig (h.y. gan gynnwys disgyblion Sipsiwn-Teithwyr). Mae'r rhain yn cynnwys canfod a delio ag anghenion dysgu amrywiol, gwerthfawrogi amrywiaeth a chymryd camau positif i hybu cynhwysiant a herio bwlio ac aflonyddu.

12.2 Dylai Datblygiad Proffesiynol Parhaus i athrawon unigol ymateb i'w hanghenion unigol fel y'u nodwyd drwy drefniadau rheoli perfformiad neu gynllunio datblygiad ysgolion. Dylai pob ysgol benderfynu ar anghenion y staff yn gyffredinol a'r staff yn unigol o safbwynt materion cyffredinol amrywiaeth ethnig a materion mwy penodol yn ymwneud â disgyblion Sipsiwn a Theithwyr o fewn cyd-destun cyffredinol o hybu cynhwysiant a chynyddu cyrhaeddiad yn gyffredinol. Dylai pob AALl ystyried yr angen am hyfforddiant pellach i'r holl athrawon o fewn eu

hysgolion. Mae Achub y Plant wedi datblygu rhaglen hyfforddiant unigol i athrawon sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddisgyblion Sipsiwn - Teithwyr.

12.3 Mae gan staff y Gwasanaethau Addysg i Deithwyr yr wybodaeth ymarferol a'r profiad i gynnig hyfforddiant mewn swydd ac i godi ymwybyddiaeth staff ysgolion. Gall hyn gynnwys cefndir cyffredinol, cyngor ar faterion diwylliannol neilltuol, methodoleg effeithiol a'r dulliau dysgu gorau ac yn y blaen. I bob pwrpas, gall y staff hyn gynnig hyfforddiant y tu allan i'w rhanbarth drwy drefniant, gan y byddai o fudd i'r rhanbarthau gydweithio a rhannu eu syniadau ac arfer gorau er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion nodedig rhai o gymunedau'r Sipsiwn-Teithwyr.

12.4 Lle mae perthnasoedd da wedi'u meithrin gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol, mae'n bosibl y bydd aelodau o'r cymunedau'n barod i ymweld ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth staff a disgyblion. Pan fydd hyn yn bosibl, gellir goresgyn rhagfarn a stereoteip a gwella hunan-barch y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

13. Anghenion Dysgu Ychwanegol

13.1 Mae disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn fwy tebygol o gael eu nodi fel rhai ag anghenion dysgu arbennig neu ychwanegol na grwpiau eraill o ddisgyblion.

13.2 Mae bod yn symudol a ffactorau eraill a nodwyd yn barod, yn golygu ei bod yn bosibl y bydd disgyblion Sipsiwn a Theithwyr, fel disgyblion eraill lle mae eu presenoldeb yn yr ysgol yn is na'r cyfartaledd, â lefelau cyrhaeddiad is na'r cyfartaledd i'w cyfoedion.

13.3 Mae'n bwysig nad yw ysgolion ac AALlau yn rhagdybio bod cyraeddiadau is yn golygu bod gan ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr lai o allu a/neu AAA. Ni fydd hyn yn symbylu disgyblion o allu cymedrol neu well a gall waethygu'r problemau presenoldeb, ymddygiad ac addasiad i'r ysgol.

13.4 Pan fydd angen, dylid cynnal asesiadau sensitif o ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr i ganfod a yw'r cyrhaeddiad is oherwydd oedi yn y dysgu o ganlyniad i ddiffyg mynediad i addysg neu oherwydd anhawster dysgu. Bydd hyn yn help i ganfod y math mwyaf addas o gymorth.

13.5 Yn gyffredinol, ni ddylid rhoi disgyblion Sipsiwn a Theithwyr mewn grwpiau addysg AAA ar wahân, heblaw bod asesiad wedi profi bod hyn yn briodol.

13.6 Pan fydd disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn dechrau yn yr ysgol, ni ddylai ysgolion ragdybio yn awtomatig y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt. Bydd arfer da presennol mewn ysgolion sy'n canfod ac yn delio ag anghenion pob disgybl, mewn sawl achos, yn gymwys i ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

14. Gweithio gyda Theuluoedd

14.1 Mae'r arfer gorau i godi cyraeddiadau disgyblion Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gysylltu'n agos gyda datblygu perthnasoedd positif rhwng ysgolion, rhieni Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ehangach.

14.2 Mae teuluoedd sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu hysgolion lleol yn datblygu agweddau mwy positif tuag at addysg ac fe'u hanogir i ganiatáu i'w plant fynychu ysgolion am fwy o amser.

14.3 Y nod yng Nghymru yw i ysgolion fod yng nghanol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu drwy ddarparu amrediad eang o weithgareddau i gyflawni anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae ysgolion mewn lle da i weithredu fel adnodd i'r gymuned nid o fewn oriau ysgol yn unig ond fin nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau. Dangoswyd y gall ysgolion sy'n gymuned-ganolog lwyddo i annog oedolion yn ôl i mewn i ddysgu ac y gallant newid diwylliant y gymuned drwy godi proffil dysgu.

14.4 Roedd y rhaglen gyllido Ewropeaidd 'EQUAL' yn cynnig arian ar gyfer prosiectau i wella cyfleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau i annog cyswllt cartref/ysgol ac estyn allan. Gellir gweld EQUAL fel arfer gorau.

14.5 Yn arbennig lle mae teuluoedd wedi setlo neu mewn tai, mae cyfleoedd i gynnwys rhieni Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol ym mywyd yr ysgol yn creu manteision positif iawn i bawb. Mae cyfleoedd o'r fath yn cynnwys annog y rheini i sefyll etholiad fel Rhiant-Lywodraethwr; cynnwys rhieni mewn gweithgareddau gwirfoddol a chwaraeon; mentora; teithiau ysgol; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ac yn y blaen. Mae penodi Sipsiwn a Theithwyr fel cynorthwywyr addysgu lle mae cyfleoedd yn codi, hefyd yn creu modelau rôl positif.

Gydag arian EQUAL, cyflogodd AALl Abertawe ferch Sipsiwn-Teithiwr ifanc mewn swydd glerigol, gan roi cyfle iddi brofi byd cyflogaeth.

14.6 Mae amrediad o gyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu ar draws Cymru a all gynnig budd sylweddol i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y strategaeth Sgiliau Sylfaenol Genedlaethol i bob oed, *'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri'* sy'n cynnwys rhaglenni helaeth i deuluoedd â phlant oed ysgol;
  - Trwy Bookstart, cyflwynir bagiau llyfrau i bob teulu gyda phlant ifanc yn 9 mis oed a 18 mis. Y nod yw cael yr adnodd yma i bob teulu, gan gynnwys teuluoedd Sipsiwn - Teithwyr.
  - Mae pob ysgol (cynradd ac uwchradd), wedi cyflawni neu yn gweithio tuag at gyflawni'r Marc Safon Sgiliau Sylfaenol. Sylfaenir hyn ar ysgolion yn creu fframwaith i adnabod a chefnogi'r rhai sydd yn/wedi disgyn ar ei hôl hi gyda'u sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.
  - Darparwyd grantiau hyfforddiant, a datblygwyd rhaglen 'Datblygiad Proffesiynol Pahaus mewn Hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol (Ysgolion)' er mwyn galluogi athrawon i gefnogi disgyblion gyda sgiliau sylfaenol gwan yn well.

- Targedwyd y rhaglen Grant Ymyrraeth Strategol yn bennaf at ddisgyblion sydd â sgiliau sylfaenol gwan. Defnyddir yr arian gan y AALlau i roi cymorth dal i fyny mewn llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd fel arfer, er bod nifer o raglenni tebyg wedi cael eu datblygu yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd.
- Mae Prosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc a Sgiliau Sylfaenol trwy Lythrennedd Ariannol wedi eu targedu at bobl ifanc 14 -19 oed, yn enwedig rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Nod y prosiectau hyn yw darparu deunyddiau a hyfforddiant i athrawon mewn cyd-destun megis rheolaeth ariannol, adloniant a hamdden a'r amgylchedd. Datblygwyd hefyd adnoddau megis y pecyn sylweddol "Sgiliau Sylfaenol Trwy Chwaraeon" sy'n cefnogi addysgu a dysgu ymhlith y grŵp oedran hwn. Mae'r Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl ifanc yn gweithio gyda gwasanaethau ieuenctid i hybu dysgu o fewn y cyd-destunau a nodir.

- Mae'r cydlynwyr Dysgu a Chwarae a sefydlwyd mewn AALlau yng Nghymru drwy'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, yn gallu targedu grwpiau fel Sipsiwn a Teithwyr a chynnig cefnogaeth fel rhaglen 'Cadw i Fyny â'r Plant' sy'n ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu.
- Mae Grantiau Ymyrraeth Strategol (SIG), drwy'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, yn canolbwyntio ar grwpiau anos eu cyrraedd. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hystyried yn rhai mewn perygl o ddioddef allgáu cymdeithasol. Gofynnwyd i gydlynwyr SIG ganfod cyfleoedd i gynyddu'r cymorth sydd ar gael.
- Mae ysgolion ar draws Cymru'n cynnig rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd i Deuluoedd sy'n rhoi cyfle i rieni wella eu sgiliau eu hunain ynghyd â rhai eu plant.

15. Gweithio aml-asiantaethol

15.1 Mae Deddf Plant 2004 yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol, prif asiantaethau a chyrff eraill gydweithio er mwyn gwella lles plant yr ardal. Mae hyn yn hynod o bwysig os yw AALlau i gyflawni anghenion arbennig teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr.

15.2 Bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn helpu i ddatblygu gwell gwasanaethau plant ar draws Cymru drwy annog cydweithio tra bydd Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn diffinio'r blaenoriaethau ar gyfer holl wasanaethau plant a phobl ifanc mewn ardal.

15.3 Argymhellir bod yr holl Awdurdodau Lleol yn sefydlu grŵp trawsadrannol sy'n gallu cydlynu gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn y lle cyntaf. Gall y grwpiau hynny wedyn ffurfio craidd i grwpiau cynllunio aml-asiantaeth gan gynnwys iechyd, yr heddlu ac asiantaethau gwirfoddol a chynrychioliadol. Dylid cofio gwerth rhannu arfer dda.

15.4 Dylid archwilio cyfleoedd i'r sectorau statudol a gwirfoddol weithio tuag at fynd i'r afael â'r allgáu cymdeithasol a'r gwthio i'r ymylon a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr ifanc. Gall sefydliadau megis Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr weithredu fel cyswllt rhwng Sipsiwn-Teithwyr a'r awdurdodau statudol. Maent yn gofalu nid yn unig am y canlyniadau addysgol ond hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r ystod o sialensiau mae'r gymuned deithiol yn eu hwynebu.

Yn dilyn prosiect a gynhaliwyd, prynodd Gwasanaeth Amgueddfeydd un Awdurdod Lleol wagen pen crwm Romani traddodiadol sydd erbyn hyn yn rhan o arddangosfa deithiol am Sipsiwn sy'n mynd o gwmpas ysgolion a safleoedd Sipsiwn yn y sir. Roedd arian gan yr amgueddfa ar gyfer prosiectau arloesol a chynhwysiant cymdeithasol yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn "Trip Wagen". Roedd dysgwyr yn profi bywyd mewn wagen a cheffyl, gan gynnwys coginio, cysgu, teithio ac adloniant o gwmpas y tân.

16. Gweithio ar draws Cymru gyfan

16.1 Gan fod y nifer gyffredinol o ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol fychan, dylai AALlau weithio gyda'i gilydd i rannu arfer da, i ganfod materion sy'n gyffredin ac i gynnig ymagweddau cyson at yr agenda Cyflawni Ar Draws Ffiniau. Bydd gweithio ar y cyd yn caniatáu i wasanaethau fod yn ymatebol i anghenion unigolion a chymunedau wrth rannu arbenigedd a gwybodaeth.

16.2 Bydd gweithio ar y cyd yn galluogi AALlau i estyn allan at grwpiau bregus a rhai wedi'u allgáu ar lefel ranbarthol. Gall AALlau â phoblogaeth uwch o Sipsiwn a Theithwyr a Gwasanaethau Addysg i Deithwyr penodedig gynnig cymorth i'r AALlau hynny â nifer fechan neu rai achlysurol o ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr, yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cydweithio rhanbarthol.

16.3 Mae gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) is-grŵp cynhwysiant sefydledig sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Disgwylir y bydd y grŵp hwn yn cymryd trosolwg o faterion addysg Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o'i gylch gwaith cynhwysiant trosfwaol.

16.4 Ailsefydlwyd grŵp Cydlynwyr Cymru gyfan ar gyfer addysg Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hwn yn helpu i feithrin cymorth o'r ddwy ochr ac i ddarparu fforwm i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud ag addysg Sipsiwn a Theithwyr.

Mynegai i'r dogfennau

Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid:

- Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003;
- Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2004.

Anelu'n Uchel: Codi Cyrhaeddiad Disgyblion Sipsiwn-Teithwyr:

- A Guide to Good Practice, DfES, Gorffennaf 2003;
- Inclusive Educational Approaches for Gypsies and Travellers within the context of Interrupted Learning: Guidance for Local Authorities and Schools, Learning and Teaching Scotland, 2003.

Addysg Dysgwyr Sipsiwn-Teithwyr:

- Arolwg o'r ddarpariaeth a wneir gan ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, Estyn, 2005;
- Ymchwil i Addysg Plant Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru, Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER), Chwefror 2006;
- Anghenion llety Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru, Pat Niner, Prifysgol Birmingham, Ebrill 2006;
- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 47/2006, Tachwedd 2006.

Lleoliad Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yr Awdurdod Lleol yng Nghymru



© Hawlfraint y Goron 2008

Cartograffeg - ML/90/07.08/genera

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Cysylltiadau defnyddiol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Uned Sipsiwn-Teithwyr	Carol Mooney - Carol.Mooney@Wales.gsi.gov.uk
Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant	Theresa Davies - Theresaa.davies@Wales.gsi.gov.uk
Cynllunio	Jan Dominguez - Jan.Dominguez@Wales.gsi.gov.uk
Iechyd	Sarah Austin - Sarah.austin@Wales.gsi.gov.uk
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Heulwen Blackmore - Heulwen.Blackmore@Wales.GSI.Gov.UK
Strategaeth Llywodraeth leol	John Paxton - John.Paxton@Wales.GSI.Gov.UK

Llywodraeth Leol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - 029 2046 8600

Mudiadau Gwirfoddol

Achub y Plant	Ant Edwards - a.edwards@savethechildren.org.uk
Ymddiriedolaeth Cymorth i Deithwyr	Susan Alexander - info@travellersaidtrust.org
Prosiect Sipsiwn-Teithwyr Caerdydd	timcgtp@btconnect.com
Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr	Chris Whitwell - fft@gypsy-traveller.org

Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn - Teithwyr
Mawrth 2008
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008

Holl gydlynwyr Sipsiwn a Theithwyr yr Awdurdodau Addysg Lleol

Ynys Môn	Mair Read - mrxed@anglesey.gov.uk
Blaenau Gwent	Rebecca Jones - Rebecca.jones@blaenauGwent.gov.uk
Pen-y-bont ar Ogwr	Shân Clark - Shan.clark@bridgend.gov.uk
Caerdydd	Carol Lewis - CaroLewis@cardiff.gov.uk
Sir Gaerfyrddin	Avril Jones - avjjones@carmarthenshire.gov.uk
Ceredigion	Stuart Bradley - stuartb@ceredigion.gov.uk
Conwy	Noella Roberts - noella.roberts@conwy.gov.uk
Sir Ddinbych	Wayne Wheatley - wayne.wheatley@denbighshire.gov.uk
Sir y Fflint	Sue Bell-Jones - sue.bell.jones@flintshire.gov.uk
Gwynedd	Bethan Roberts - bethaneleriroberts@gwynedd.gov.uk
Merthyr Tudful	Janet Strangis - Janet.strangis@merthyr.gov.uk
Castell-nedd Port Talbot	Lynn Hopkins - learning.support@npt.gov.uk
Casnewydd	Tracey Pead - tracey.pead@newport.gov.uk
Sir Benfro	Beverley Stephens@pembrokeshire.gov.uk
Powys	Nigel.topley@powys.gov.uk

Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn - Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau Rhif: 003/2008

Abertawe	Gwenda.jones@swansea.gov.uk
Tor-faen	Terri Relph - terri.relph@torfaen.gov.uk
Bro Morgannwg	Ian Ernest - IJErnest@valeofglamorgan.gov.uk
Wrecsam	Lisa Davies - lisa1.davies@wrexham.gov.uk

Symud Ymlaen -
Addysg i Sipsiwn -
Teithwyr

Mawrth 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 003/2008